# Uchelgais Gogledd Cymru - Datganiad Preifatrwydd

**Sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma yn dweud wrthych chi beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cysylltu ag Uchelgais Gogledd Cymru ac yn rhoi eich gwybodaeth bersonol i ni. Pan fyddwch yn cysylltu â ni ynghylch y gwaith yr ydym yn ei wneud, byddwn yn trin eich data personol yn unol â'n hawdurdod i gynnal swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth mewn amgylchedd diogel a bydd mynediad ati wedi'i chyfyngu yn unol â'r egwyddor o fod 'angen gwybod'.

Os byddwn yn casglu eich gwybodaeth bersonol ar gyfer diben penodol sydd ddim yn cael ei restru isod, byddwn yn rhoi rhybudd preifatrwydd penodol i chi i egluro pam ein bod angen y wybodaeth honno, a sut byddwn yn ei defnyddio.

**Sut byddwn yn cadw eich gwybodaeth**

Bydd yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r ohebiaeth yr ydym yn ei derbyn yn cael ei dal yn systemau rheoli gwybodaeth diogel Uchelgais Gogledd Cymru. Byddwn yn cadw'r ffeiliau’n unol â'r dyddiadau adolygu yn ein hamserlen cadw a gwaredu. Ceir gwared ar eich gwybodaeth yn ddiogel unwaith bydd y cyfnod cadw yn dod i ben.

**Dewis Iaith**

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Os byddwch yn nodi eich dewis i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, byddwn yn cofnodi eich dewis gyda'ch manylion a chadw'r dewis hwnnw hyd nes y byddwch yn dweud fel arall neu bod eich cofnod yn cael ei waredu.

**Os byddwch yn cysylltu â ni gydag ymholiad cyffredinol**

Byddwn angen gofyn i chi am eich enw a'ch manylion cyswllt (e.e. cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost, neu rif ffôn), pan fyddwch yn cysylltu â ni gydag ymholiad cyffredinol. Byddwn yn ymdrin â'ch ymholiad yn yr un ffordd, waeth sut yr ydych yn dewis cysylltu â ni.

Byddwn angen datgelu eich gwybodaeth i drydydd parti os oes angen eu mewnbwn i ymateb i'ch ymholiad. Os nad ydych chi eisiau i wybodaeth sy'n eich hadnabod i gael ei datgelu, byddwn ni'n ceisio parchu hynny. Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosib ymdrin ag ymholiad yn ddi-enw.

Yn yr un modd, pan fo ymholiadau yn cael eu cyflwyno i ni, ni fyddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi i ni i ymdrin â'r ymholiad ac unrhyw faterion dilynol ac i wirio lefel y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu. Bydd ffeiliau achos ar gyfer ymholiadau wedi'u hymchwilio a'u datrys gan Uchelgais Gogledd Cymru a byddant yn cael eu cadw am hyd at 3 blynedd ar ôl i'ch achos gael ei ddatrys yn llawn.

**Os ydych yn gwneud cwyn i ni**

Byddwn yn gofyn i chi am eich enw a'ch manylion cyswllt (e.e. cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost, neu rif ffôn), os ydych yn gwneud cwyn i ni. Byddwn angen datgelu eich gwybodaeth i drydydd parti os oes angen eu mewnbwn i ymateb i'ch cwyn neu lle mae gennym gyfrifoldeb i wneud hynny er mwyn iddynt ddatrys y pryderon yr ydych wedi'u codi. Os nad ydych chi eisiau i wybodaeth sy'n eich hadnabod i gael ei datgelu, byddwn ni'n ceisio parchu hynny. Fodd bynnag, wrth ymdrin â'ch cwyn efallai na fydd bob amser yn bosib cadw eich hunaniaeth yn gudd.

Bydd ffeiliau achos ar gyfer ymholiadau wedi'u hymchwilio a'u datrys gan Uchelgais Gogledd Cymru yn cael eu cadw am hyd at 3 blynedd ar ôl i'ch achos gael ei ddatrys yn llawn.

**Ymwelwyr i'n gwefannau**

Os byddwch yn ymweld â'n gwefan, bydd angen i chi roi eich enw a'ch cyfeiriad e-bost os byddwch yn cyflwyno ymholiad drwy'r cyfleuster 'Anfonwch neges i ni'. Ni fyddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi i ni i ymdrin â'r ymholiad ac unrhyw ymholiad dilynol ac i wirio lefel y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu. Bydd ffeiliau achos ar gyfer ymholiadau wedi'u hymchwilio a'u datrys gan Uchelgais Gogledd Cymru yn cael eu cadw am hyd at 3 blynedd ar ôl i'ch achos gael ei ddatrys yn llawn.

Dolenni i wefannau a gwasanaethau eraill - os dilynwch chi ddolen i wefan sy'n cael ei darparu gan awdurdod lleol, adran llywodraeth neu asiantaeth arall, bydd y sefydliad hwnnw yn:

- gyfrifol am brosesu unrhyw ddata yr ydych yn ei rannu â nhw
- cyhoeddi a rheoli eu hysbysiad preifatrwydd eu hunain gyda manylion ynghylch sut i gysylltu â nhw

E-newyddlen: rydym yn defnyddio *Business News Wales* i ddosbarthu ein e-newyddlenni. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut maent yn prosesu data, gweler hysbysiad preifatrwydd *Business News Wales*.

Ymgynghoriadau a theclynnau arolwg ar-lein: rydym yn casglu gwybodaeth gan ddefnyddio *SurveyMonkey.* Mae'r data sy'n cael ei gasglu drwy'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddal yn yr Unol Daleithiau. Mae *SurveyMonkey* wedi rhoi sicrwydd eu bod yn cwrdd â safonau GDPR y DU; Cydymffurfiaeth GDPR ar *SurveyMonkey*.

**Os ydych yn aelod o grŵp rhanddeiliaid neu weithgor**

Fel rhan o'n gwaith, rydym yn aml yn gwahodd rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn gweithgorau amrywiol. Os byddwch yn cael cais i ymuno â gweithgor neu yn rhoi eich hun ymlaen, byddwn yn rhoi disgrifiad i chi o'r gweithgor fydd yn cynnwys:

- ei ddiben
- eich rôl yn y grŵp
- pa mor aml fydd y grŵp yn cwrdd a thros pa gyfnod
- os yw cofnodion a phapurau'r grŵp yn cael eu cyhoeddi.

Pan fyddwch yn aelod o'r grŵp, byddwn yn cysylltu â chi i drefnu cyfarfodydd, i anfon papurau atoch am gyfarfodydd neu wybodaeth arall sy'n berthnasol i ddiben y grŵp hwnnw. Os byddwn yn dymuno defnyddio eich data personol am unrhyw reswm heblaw am er diben eich aelodaeth o'r grŵp, byddwn yn gofyn i chi am hynny yn gyntaf.

Os nad ydych yn dymuno bod yn aelod o weithgor mwyach, yna gallwch gysylltu ag ysgrifenyddiaeth y grŵp i gael eich tynnu oddi ar y rhestr.

Byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth gyswllt am oes y grŵp, neu eich rhan ynddo ac am 3 mlynedd ar ben hynny. Bydd cofnodion a phapurau eraill sy'n eich crybwyll yn ôl eich enw yn cael eu cadw yn unol â'r meini prawf sy'n cael eu nodi yn atodlen gadw Uchelgais Gogledd Cymru ac o'r herwydd, byddant yn cael eu cadw cyhyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig.

**Os byddwch yn ymweld â swyddfa Uchelgais Gogledd Cymru**

Os byddwch yn ymweld â ni yn ein swyddfeydd yn Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, bydd angen i chi roi eich enw a'ch manylion cyswllt i'r swyddogion yr ydych yn eu cwrdd. Pan fyddwch yn cyrraedd, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i chi lofnodi i mewn yn y dderbynfa a byddant yn cadw'r wybodaeth yn unol â'u polisi. Mae camerâu cylch cyfyng (CCTV) yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ac felly, efallai y byddwch yn cael eich recordio fel rhan o'ch ymweliad. Mae'r camerâu hynny er dibenion diogelwch ac ni fydd y fideo yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw ddiben arall; byddant yn cadw'r delweddau CCTV yn unol â'u polisi.

**Os byddwch yn mynychu digwyddiad sy'n cael ei drefnu gan Uchelgais Gogledd Cymru**

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn trefnu gwahanol fathau o ddigwyddiadau i'n helpu ni yn y gwaith yr ydym yn ei wneud. Waeth beth fo diben y digwyddiad, byddwn angen eich data personol os byddwch yn mynychu. Bydd hyn yn cynnwys eich enw, manylion cyswllt, y sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli, anghenion dietegol ac os yw'r digwyddiad yn cynnwys parcio lle mae'r mynediad wedi'i reoli, yna bydd angen rhif cofrestru eich cerbyd. Byddwn yn defnyddio eich manylion cyswllt i anfon gwybodaeth atoch am fynychu'r digwyddiad ac efallai y byddwn yn anfon deunyddiau atoch ar ôl y digwyddiad.

Mewn rhai achosion, rydym yn defnyddio trydydd parti i reoli ein digwyddiadau, ac mae ein contractau yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel. Pan fyddwch angen mynd i dderbynfa mewn lleoliad, byddwn yn rhoi enwau'r holl fynychwyr i'r lleoliad, a rhif cofrestru eich car, os yw'n berthnasol.

Ni fyddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am fwy na blwyddyn ar ôl unrhyw ddigwyddiad y byddwch yn ei fynychu. Os byddwn yn dymuno defnyddio eich data personol am unrhyw reswm heblaw am drefnu'r digwyddiad, byddwn yn gofyn i chi am hyn fel rhan o'r broses archebu.

Os yw'r digwyddiad yn cael ei gynnal yn swyddfa Uchelgais Gogledd Cymru, gallwch ddarganfod mwy yn y rhan sy'n ymwneud ag ymweld â swyddfa Uchelgais Gogledd Cymru.

**Os byddwch yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad Uchelgais Gogledd Cymru**

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Uchelgais Gogledd Cymru sy’n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hwy neu ar gyfer cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fo Uchelgais Gogledd Cymru yn ymgymryd â dadansoddiad pellach o ymatebion ymgynghori, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan gontractwyr trydydd parti (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghoriaeth). Mae telerau ac amodau safonol Uchelgais Gogledd Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a diogelu data personol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i wneud yn briodol, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r bob ymgynghoriad. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, mae enw a chyfeiriad (neu ran o'r cyfeiriad) y person neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os ydych chi am aros yn ddi-enw, nodwch eich ffafriaeth pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn yn dileu eich manylion cyn cyhoeddi.

Os bydd eich manylion yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna bydd yr adroddiadau cyhoeddedig yma yn cael eu cadw’n barhaus. Ni fydd unrhyw ran o'ch data sy'n cael ei ddal fel arall gan Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei gadw am fwy na 3 blynedd.

**Os byddwch yn gwneud cais am swydd gydag Uchelgais Gogledd Cymru**
Mae Cyngor Gwynedd yn darparu'r gwasanaeth recriwtio i ni. Mae disgrifiad llawn o'r broses recriwtio ar gael ar eu tudalen recriwtio. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn ystod y broses recriwtio yn cael ei chadw'n unol â'r meini prawf a nodir gan Gyngor Gwynedd.

Efallai y bydd trydydd partïon weithiau'n darparu elfennau o'n gwasanaeth recriwtio i ni. Mae gennym gontractau yn eu lle gyda'n proseswyr data trydydd parti. Mae hyn yn golygu na allant wneud unrhyw beth gyda'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt i wneud hynny. Ni fyddant yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag unrhyw sefydliad heblaw amdanom ni. Byddant yn ei dal yn ddiogel a'i chadw am y cyfnod y byddwn yn ei gyfarwyddo.

**Os byddwch yn gwneud Cais Rhyddid Gwybodaeth**
Byddwn angen eich enw a'ch manylion cyswllt er mwyn diwallu ein rhwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 er mwyn darparu ymateb i chi. Ni fyddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth bersonol hon i ymdrin â'ch cais ac unrhyw faterion sy'n codi o ganlyniad iddo. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol, a'r holl wybodaeth arall sy'n ymwneud â'ch cais, am 3 blynedd o'r dyddiad pan wnaethom ymateb i'ch cais.

**Os byddwch yn cysylltu â ni mewn perthynas â'ch hawliau dan gyfraith diogelu data**
Os byddwch yn dymuno cysylltu gydag Uchelgais Gogledd Cymru mewn perthynas â'ch hawliau dan ddeddfwriaeth diogelu data, fe allwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Uchelgais Gogledd Cymru:
(manylion e-bost a chyfeiriad)
Byddwn yn ymdrin â chais sut bynnag y byddwch yn cysylltu â ni.

Os byddwch yn gwneud cais dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y DU, byddwn angen eich enw a'ch manylion cyswllt er mwyn diwallu ein rhwymedigaethau cyfreithiol dan y gyfraith i roi ymateb i chi. Ni fyddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth bersonol hon i ymdrin â'ch cais ac unrhyw faterion sy'n codi o ganlyniad iddo. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol, a'r holl wybodaeth arall sy'n ymwneud â'ch cais, am 3 blynedd o'r dyddiad pan wnaethom ymateb i'ch cais.

**Eich hawliau**
Dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:
- i gael gwybod am y data personol y mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ei ddal amdanoch chi a chael mynediad iddo
- i wneud i ni gywiro unrhyw wallau yn y data
- (mewn rhai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu prosesu
- (mewn rhai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu'
- (mewn rhai amgylchiadau) i symud data
- i wneud cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

**Cysylltiadau**
Am ragor o fanylion am y wybodaeth sydd gan Uchelgais Gogledd Cymru a'i defnydd, neu os hoffech ddefnyddio eich hawliau dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:
E-bost: info@ambitionnorth.wales

Manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office
Information Commissioner’s Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
Rhif Ffôn:  0303 123 1113

**Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn**

Mae adolygu'r dudalen hon yn sicrhau eich bod yn ymwybodol bob amser o ba wybodaeth yr ydym yn ei chasglu. Sut y byddwn yn ei defnyddio ac o dan ba amgylchiadau, os o gwbl, y byddwn yn ei rhannu â phartïon eraill.

Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ddiwethaf ym mis Chwefror 2026